

# Strategaeth Bwydo Babanod 2025 – 2030 Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Awduron:
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Y Tîm Iechyd y Cyhoedd Lleol
Tîm Bwydo Babanod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 02 |
| Cyflwyniad | 04 |
| Pam rydym angen Strategaeth Bwydo Babanod? | 04 |
| Ein Gweledigaeth | 04 |
| Ein Nodau | 05 |
| Gwerth Bwydo ar y Fron | 06 |
| Data Bwydo ar y Fron CTM | 07 |
| Bwydo Babanod: Arolwg Profiad y Claf (2023) | 08 |
| Mewnwelediad o Brofiad y Claf | 09 |
| Ein Nodau Bwydo Babanod | 10 |
| Ysgogwyr Lleol a Chenedlaethol | 12 |
| Dull poblogaeth system gyfan | 14 |
| Siwrnai Babi trwy BIPCTM | 15 |
| Bwydo Ymatebol | 16 |
| Gwireddu ein Gweledigaeth | 17 |
| Sut beth fydd llwyddiant? | 17 |
| Crynodeb | 19 |
| Cyfeiriadau ac Atodiadau | 20 |
| Dyletswydd Ansawdd ar gyfer Strategaeth Bwydo Babanod | 23 |

# CRYNODEB GWEITHREDOL



Fel Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Gwarcheidwad Cyfeillgar i Fabanod UNICEF y DU, anrhydedd yw cyflwyno Strategaeth Bwydo Babanod. Mae'r strategaeth hon yn anelu at hyrwyddo ac ategu'r arferion bwydo babanod gorau posibl yn ein bwrdd iechyd ac yng nghymunedau lleol Merthyr, Rhondda, Cynon, Taf a Phen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar bwysigrwydd ffurfio cwlwm cynnar a chyflwyno maeth yn gynnar, a'r modd y gall hyn oll gyfrannu at dwf a llesiant babanod yn ystod eu 1000 diwrnod cyntaf. Hefyd, ystyrir iechyd hirdymor y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r strategaeth yn nodi'n glir pa feysydd y mae angen eu hategu yn y siwrnai fwydo a hefyd nodir ein gweledigaeth o ran sut yr anelwn at gyflawni hyn, gan sicrhau y bydd llais babanod a phlant bach wrth galon a chraidd ein gwaith.

Bydd y grŵp strategol bwydo babanod yn goruchwylio'r modd y datblygir ac y gweithredir y nodau a bennir yn y ddogfen hon, gan gydweithio ledled ardal y bwrdd iechyd.

Sylweddolwn fod pob teulu'n wahanol ac rydym eisiau cynnig y dechrau gorau i bob un, ar sail eu hanghenion a'u dymuniadau unigol, gan eu cynorthwyo yn eu dewisiadau bwydo.
Gall menywod elwa mewn nifer o ffyrdd ar fwydo ar y fron; yn wir, dyma un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o sicrhau iechyd y plentyn a'r fam. Mae cynllun gweithredu'r strategaeth bwydo babanod yn cyd-fynd â'n huchelgeisiau o ran creu iechyd, ysbrydoli pobl, gwella gofal a chynnal ein dyfodol. Caiff ei seilio ar werthoedd sefydliadol Cwm Taf Morgannwg, sef:

·Rydym yn gwrando, yn dysgu ac yn gwella

·Rydym yn gweithio gyda'n gilydd fel tîm

·Rydym yn trin pawb gyda pharch

Mae'r strategaeth hon yn cynnig cyfeiriad, a'i bwriad yw ysgogi gweithredu ymhlith holl grwpiau staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – hynny yw, y rhai y mae eu gwaith yn effeithio ar deuluoedd yn ystod y flwyddyn gyntaf ym mywyd y plentyn.

Drwy gydol ein dull, byddwn yn integreiddio'r pum egwyddor allweddol a nodir yng Ngweledigaeth Famolaeth a Newyddenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg 2023 – 2026 a byddwn yn cydweddu â Rhaglen Plant Iach Cymru er mwyn cynnig gofal wedi'i bersonoli, gyda dewis gwirioneddol, i fenywod, rhieni a theuluoedd, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a phrofiad o ansawdd, a chan roi'r dechrau gorau i blant trwy gynnig gofal diogel ac effeithiol yn ystod eu hwythnosau cyntaf.



**Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio**
**Greg Dix**

Mae Sefydliad Iechyd y Byd ac UNICEF yn argymell y dylai plant ddechrau bwydo ar y fron o fewn awr i gael eu geni ac y dylent gael eu bwydo ar y fron yn unig am 6 mis cyntaf eu bywyd. Ar ôl 6 mis, dylai plant ddechrau bwyta bwydydd cyflenwol diogel a digonol, gan barhau i fwydo ar y fron hyd nes y byddant yn ddwyflwydd oed neu'n hŷn. (Sefydliad Iechyd y Byd 2019)



**Nodyn pwysig: sylweddolwn na fydd pob unigolyn beichiog yn uniaethu fel menyw. Wrth gyfeirio at fenywod beichiog yn y ddogfen hon, rydym yn cynnwys pobl feichiog/pobl sy'n rhoi genedigaeth o bob rhywedd. Sylweddolwn na fydd pawb yn uniaethu fel unigolyn â bronnau neu unigolyn sy'n bwydo ar y fron a byddwn yn addasu'r gofal fesul achos.

# CYFLWYNIAD

## PAM EIN BOD ANGEN STRATEGAETH BWYDO BABANOD?

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM), ceir un o'r cyfraddau isaf yn y Deyrnas Unedig o ran dechrau bwydo ar y fron a pharhau i fwydo ar y fron.

Mae BIPCTM yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer cynorthwyo ein poblogaeth, ledled y bwrdd iechyd, i ddiogelu, hyrwyddo, cefnogi a normaleiddio'r arfer o fwydo ar y fron. Efallai y bydd rhieni'n dewis bwydo ar y fron, defnyddio llaeth a dynnwyd o'r fron neu ddefnyddio fformiwla babanod; dyma benderfyniad personol iawn yn aml. Er bod y strategaeth yn hyrwyddo bwydo ar y fron, y dymuniad yw i rieni deimlo eu bod yn cael cefnogaeth ym mha bynnag ffordd a ddewisant i fwydo'u babanod.

Mae'r cynllun strategol hwn yn pennu'r weledigaeth a'r cyfeiriad ar gyfer cynyddu cyfraddau bwydo ar y fron ym Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr; trwy gydweithio i greu gwell dyfodol i'n plant, i'n cymunedau ac i iechyd y boblogaeth. Bwriad y strategaeth hon yw ysgogi gweithredu ymhlith holl grwpiau staff y bwrdd iechyd – hynny yw, y rhai y mae eu gwaith yn effeithio ar gefnogi teuluoedd yn ystod y flwyddyn gyntaf ym mywyd y plentyn.





Gweledigaeth Famolaeth a Newyddenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg 2023 – 2026

'Cefnogi Beichiogrwydd Iach a Grymuso Rhieni: Dechrau'n Dda'

## EIN GWELEDIGAETH

Ein gweledigaeth yw creu diwylliant cefnogol ledled BIPCTM, lle ceir gweithlu tra hyfforddedig a all gynnig cymorth parhaus i deuluoedd drwy gydol eu siwrnai fwydo, gan alluogi rhieni i wneud dewisiadau cytbwys ynglŷn â bwydo'u babanod – dewisiadau a fydd yn rhoi'r maeth gorau i'w babanod a'u plant bach ac a fydd yn eu helpu i feithrin perthynas agos a chariadus rhwng y rhiant a'r baban.

Mae'r strategaeth hon yn cynnig cyfeiriad, a'i bwriad yw ysgogi gweithredu ymhlith holl grwpiau staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – hynny yw, y rhai y mae eu gwaith yn effeithio ar deuluoedd yn ystod y flwyddyn gyntaf ym mywyd y plentyn.

Drwy gydol ein dull, byddwn yn integreiddio'r pum egwyddor allweddol a nodir yng **Ngweledigaeth Famolaeth a Newyddenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg 2023 – 2026** a byddwn yn cydweddu â Rhaglen Plant Iach Cymru er mwyn cynnig gofal wedi'i bersonoli, gyda dewis gwirioneddol, i fenywod, rhieni a theuluoedd, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a phrofiad o ansawdd, a chan roi'r dechrau gorau i blant trwy gynnig gofal diogel ac effeithiol yn ystod eu hwythnosau cyntaf.

# EIN NODAU



Dyma nodau Strategaeth Bwydo Babanod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM):

1. Sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cefnogi i wneud dewisiadau gwybodus mewn perthynas â bwydo a meithrin eu plentyn.
2. Cynyddu nifer y mamau sy'n rhoi llaeth o'r fron i'w babanod.
3. Creu diwylliant cefnogol sy'n normaleiddio bwydo ar y fron.
4. Cydweithio i ysgogi gwelliannau mewn iechyd a llesiant yn holl boblogaeth BIP CTM gan gynnwys hybu'r berthynas rhwng rhieni a'u babanod
5. Cefnogi teuluoedd sy'n dewis bwydo â fformiwla i wneud hynny'n ddiogel ac yn ymatebol.

# GWERTH BWYDO AR Y FRON

Mae llaeth dynol ar gael i'r baban pa bryd bynnag y bydd ei angen, ac mae'n rhad ac am ddim. Mae llaeth y fron yn sylwedd unigryw – mae'n newid yn gyson er mwyn diwallu anghenion y baban ac mae'n llawn gwrthgyrff sy'n amddiffyn y baban. Mae'n atal amrywiaeth o glefydau heintus ac anhrosglwyddadwy, yn cynnwys gastroenteritis, gordewdra plant, diabetes math 2 a chanser y fron yn y fam. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw bwydo ar y fron i iechyd a datblygiad babanod a'u mamau, a'r cysylltiad a geir rhwng bwydo ar y fron ac atal anghydraddoldebau iechyd mawr (Renfrew et al, 2012).

Ceir tystiolaeth glir fod bwydo ar y fron yn cael dylanwad cadarnhaol mawr ar iechyd y fam a'r plentyn, a hefyd ar ddatblygiad y plentyn. Mae'n hollbwysig inni ddiogelu, hyrwyddo a chefnogi bwydo ar y fron.
*Menter Cyfeillgar i Fabanod Unicef*



Rhoddwn ddull system gyfan ar waith ar gyfer cynnal pwysau iach. Mae bwydo babanod yn elfen hollbwysig o'n dull i leihau lefelau gordewdra plant ac oedolion ar gyfer ein poblogaeth yng Nghwm Taf Morgannwg. Trwy gynyddu'r cyfraddau ar gyfer dechrau a pharhau i fwydo ar y fron ledled y boblogaeth, bydd modd cael effaith ar gyfraddau gordewdra plant ac oedolion. Er mwyn gwneud hyn, mae angen cyflwyno newid yn amgylchedd a diwylliant Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr.



Gall nifer o bethau egluro pam y mae bwydo ar y fron yn diogelu rhag gorbwysau a gordewrda. Yn gyntaf, mae bwydo ar y fron yn dylanwadu ar ddatblygiad microbiota yn y perfedd, sef rhywbeth a gysylltir â lleihau risg gordewdra. Yn ail, cysylltir bwydo ar y fron â deiet iachach yn ystod plentyndod. Yn drydydd, efallai fod yna gysylltiad rhwng bwydo ar y fron a'r modd y rheolir archwaeth, oherwydd efallai ei fod yn helpu plant i deimlo eu bod wedi cael eu digoni. (Horta, 2022)

# DATA BWYDO AR Y FRON CTM

**Bob blwyddyn, caiff oddeutu 4,500 o fabanod eu geni ledled Cwm Taf Morgannwg.**

**Yn 2023, roedd cyfraddau bwydo ar y fron ar draws Cwm Taf Morgannwg fel a ganlyn:**

Roedd gan 90.8% o fabanod groen wrth groen ar ôl genedigaeth

Mae 57.4% yn cael eu bwydo ar y fron adeg eu geni

10 diwrnod: unrhyw laeth o'r fron 46.5%, 30.4% yn unig

6 wythnos unrhyw laeth o'r fron 30.7%, 21.6% yn unig

6 mis unrhyw laeth o'r fron 22.5%, 16.3% yn unig

*Cyfeirnod - Bwydo ar y fron yn ôl oedran y babi, y math o fwydo ar y fron a bwrdd iechyd. Stats Cymru (cyhoeddwyd Gorffennaf 2024) Dolen: Bwydo ar y fron yn ôl oedran y babi, math o fwydo ar y fron a bwrdd iechyd (llyw.cymru)*

## ADRODDIAD RHAGLEN MESUR PLANT 2022-2023

Dengys adroddiad diweddaraf y Rhaglen Mesur Plant mai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg y ceir y gyfradd gordewdra uchaf yng Nghymru, ac yn ystadegol ei bod yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.
Mae'r gyfran o blant gordew yng Nghymru yn uwch na'r ffigurau a gofnodir yn Lloegr a'r Alban. Rhaglen Mesur Plant 2022-2023 (Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. 2024 )


'Mae bwydo ar y fron yn bwysig i iechyd a datblygiad babanod a'u mamau, ac mae'n gysylltiedig ag atal anghydraddoldebau iechyd sylweddol.'
*Llywodraeth Cymru, 2019*


# BWYDO BABANOD: CANFYDDIADAU AROLWG O BROFIAD CLEIFION YN ARDAL BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG (2023)

Yn 2023, cynhaliodd tîm ‘Pwysau Iach’ Iechyd y Cyhoedd arolwg ar-lein yn ymwneud â phrofiadau o fwydo ar y fron. Arweiniodd yr arolwg at wybodaeth bwysig gan 171 o deuluoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Bwriad y strategaeth hon yw adeiladu ar yr wybodaeth a gasglwyd, ac ymdrin â hi, trwy gyfrwng y Weledigaeth Strategol a’r Cynllun Cyflawni. Ceir copi o ganlyniadau llawn yr arolwg yn yr atodiad. Isod, nodir gweithgareddau sy’n annog pobl i ddechrau a pharhau i fwydo ar y fron:

**Mae ‘llenwyd ymlaen llaw’ yn cyfeirio at atebion a awgrymwyd yn yr arolwg; mae’r atebion eraill a nodir isod yn atebion testun rhydd.


## Dod o hyd i Systemau Cymorth




## Rhwystrau o ran parhau i fwydo ar y fron




Mae mamau a’u teuluoedd angen cymorth er mwyn gallu parhau i fwydo ar y fron a chael rhyddid a chefnogaeth ar yr un pryd i barhau i gymryd rhan mewn agweddau eraill ar fywyd yn ôl eu dymuniad, fel addysg a chyflogaeth. (Lancet 2023)

# MEWNWELEDIAD O BROFIAD Y CLAF

**‘Cefais gymorth da iawn o ran bwydo fy maban ar y fron. Cefais gyswllt croen ar groen yn syth ar ôl yr enedigaeth ac roedd staff Ysbyty’r Tywysog Siarl yn wych. Roedd xxx, xxx a xxx yn anhygoel. Fe ddangosodd pob un ohonyn nhw sut i gael fy maban i sugno a chefais gymorth gwych ganddyn nhw. Hefyd, roedd y bydwragedd cymunedol yn wych o ran cynorthwyo fy maban i fwydo, sef xxx, xxx a xxx. Diolch i’r menywod hyn am eu help a’u cymorth. Mae fy maban yn 13 mis a dim ond ar laeth y fron y caiff ei fwydo.’**

*(Bwydo Babanod: Un o ymatebwyr yr Arolwg o Brofiad Cleifion, 2023)*

**‘Roedd fy mydwraig yn wych ac fe wnaeth hi fy helpu yn yr ysbyty ar ôl yr enedigaeth. Ond heb ei chymorth hi, fe fuaswn wedi cael fy ngadael ar fy mhen fy hun, oherwydd wnaeth neb arall ddod ataf na rhoi cyngor imi, na hyd yn oed gofyn a oeddwn am fwydo ar y fron ynteu bwydo gyda photel. Ers hynny, does neb wedi dod i weld bod y baban yn sugno’n iawn na pha hwyl rwy’n ei gael ar fwydo ar y fron.’**

*(Bwydo Babanod: Un o ymatebwyr yr Arolwg o Brofiad Cleifion, 2023)*

*Sylwer: Cafodd canlyniadau’r Arolwg Bwydo Babanod eu seilio ar ymatebion a gafwyd gan 171 o deuluoedd sy’n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg; roedd 126 ohonynt wedi bwydo ar y fron o leiaf unwaith. Nodir cyfyngiadau llawn yr adroddiad yn yr Atodiad.



# EIN NODAU BWYDO BABANOD

“Mae’n hollbwysig cynnwys plant, rhieni a gofalwyr yn y dasg o ddatblygu polisïau ac ymyriadau, er mwyn sicrhau llwyddiant y polisïau a’r ymyriadau hynny. Wrth fynd ati i ddatblygu polisïau ac ymyriadau, argymhellwn y dylid cynnwys lleisiau a safbwyntiau amrywiol plant (trwy gyfrwng eu rhieni a’u gofalwyr neu yn ychwanegol at leisiau a safbwyntiau eu rhieni a’u gofalwyr) er mwyn sicrhau y gellir ymdrin â’u hanghenion a gwneud yn siŵr bod modd rhoi’r polisïau a’r ymyriadau dan sylw ar waith yn effeithiol. Gallai hyn esgor ar lwyddiant gwell trwy godi ymwybyddiaeth a chynyddu nifer y cyfranogwyr.” (Yr adroddiad ‘Prioritising early childhood to promote the nation’s health, wellbeing and prosperity’ 2024).



## 1 Sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth i wneud dewisiadau cytbwys ynglŷn â bwydo a meithrin eu plant.

a. Bydd teuluoedd yn cael cynnig trafodaeth ystyrlon ynglŷn â bwydo babanod er mwyn archwilio dewisiadau bwydo.

b. Bydd adnoddau cynenedigol ar gael, er mwyn sicrhau bod rhieni newydd yn cael gwybodaeth gyson o ffynhonnell ddibynadwy.

c. Byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth ledled BIPCTM er mwyn sicrhau gwasanaeth teg.



## 2 Cynyddu nifer y mamau sy’n rhoi llaeth y fron i’w babanod.

a. Bydd rhieni’n cael gwybodaeth ac adnoddau yn y cyfnod cynenedigol ynglŷn â sut i dynnu colostrwm.

b. Bydd rhieni a gaiff anawsterau wrth fwydo:

- Yn cael cymorth gan staff ac yn cael gwybodaeth gyson
- Yn cael eu cyfeirio at y cymorth iawn, fel y bo’n briodol.

c. Bydd gwasanaethau arbenigol ar gael ar gyfer problemau bwydo cymhleth.



## 3

### Creu diwylliant cefnogol trwy normaleiddio bwydo ar y fron.

a. Byddwn yn gwrando ar deuluoedd a staff, byddant yn cael eu gwerthfawrogi a byddant yn cael eu trin gydag urddas a pharch.

b. Byddwn yn ceisio barn ein cymuned a byddwn yn parhau i wrando ar adborth gan fenywod, pobl sy'n rhoi genedigaeth, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.

c. Byddwn yn rhoi anogaeth a chymorth gweithredol i fenywod, gan weithio ar y cyd i'w cynorthwyo i gyrraedd eu hamcanion bwydo.

d. Bydd staff BIPCTM yn cael cymorth ar gyfer eu siwrnai bwydo ar y fron.

e. Byddwn yn parhau i ddatblygu a chyflwyno addysg er mwyn cael gweithlu cymwys.

f. Bydd gennym strategaeth gyfathrebu gydweithredol a chanddi gamau penodol.



## 4

### Ysgogi gwelliannau mewn iechyd a llesiant trwy boblogaeth BIPCTM, yn cynnwys hyrwyddo'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban.

a. Dadansoddi adborth sy'n egluro'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau bwydo, a gweithredu ar sail yr adborth hwnnw.

b. Cyflwyno 'llais y baban' wrth wneud penderfyniadau.

c. Ymgysylltu ag amryfal asiantaethau er mwyn sicrhau ymrwymiad i gydweithio tuag at newid cymdeithasol ehangach fel y gellir normaleiddio'r arfer o fwydo ar y fron yn ein cymunedau – megis Gwasanaethau Plant, Llyfrgelloedd.

d. Gweithio o fewn y bwrdd iechyd i sefydlu nyrsys cyswllt ac i ddatblygu llwybrau bwydo babanod.

e. Cysylltu gydag ysgolion a sefydliadau addysg bellach i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynglŷn â bwydo ar y fron a rhianta ymatebol.



## 5

### Cynorthwyo teuluoedd sy'n dewis llaeth fformiwla i wneud hynny mewn ffordd ddiogel a chyfrifol.

a. Byddwn yn parhau i ddatblygu adnoddau digidol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyson a chlir ar gael.

b. Bydd yr wybodaeth a'r negeseuon yn glir, yn berthnasol, yn gyson ac yn hawdd eu deall, a byddant mewn fformat priodol.

c. Yn achos rhieni sy'n dewis bwydo eu babanod ar laeth fformiwla:

- Byddant yn cael eu cyfeirio at adnoddau priodol i'w cynorthwyo i wneud penderfyniad.
- Byddant yn cael cymorth gan staff yn unol â chod rhyngwladol Sefydliad Iechyd y Byd ar farchnata amnewidion llaeth y fron.
- Byddant yn cael eu haddysgu sut i baratoi llaeth fformiwla yn ddiogel.
- Byddant yn cael cymorth i fwydo'u babanod ar fwyd potel mewn modd ymatebol.
- Byddant hefyd yn cael cymorth i ddarparu llaeth y fron cyhyd ag y dymunant.

# YSGOGWYR LLEOL A CHENEDLAETHOL

Datblygwyd strategaeth Bwydo Babanod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn unol â'r canlynol:



## YSGOGWYR CENEDLAETHOL

**Safonau'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod**

Mae'r Safonau Cyfeillgar i Fabanod yn darparu gwasanaethau sy'n anelu at drawsnewid gofal i fabanod, eu mamau a'u teuluoedd. Mae'r safonau'n galluogi gwasanaethau cyhoeddus i roi cymorth gwell i deuluoedd ar gyfer bwydo a meithrin perthynas agos a chariadus rhwng y rhiant a'r baban, gan sicrhau y bydd pob baban yn cael y dechrau gorau.

**Cynllun Gweithredu 5 Mlynedd Cymru Gyfan ar Fwydo ar y Fron**

Mae'r cynllun gweithredu yn pennu nodau ac amcanion strategol i lywio camau gweithredu o ran cymorth ar unwaith i fenywod a theuluoedd a'r cymhelliant iechyd i'r boblogaeth ehangach ystyried bwydo ar y fron yn ddewis a sicrhau bod hynny'n dderbyniol yn ddiwylliannol.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Llywodraeth Cymru, 2015)**

Gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru

**Pwysau Iach: Cymru Iach (Llywodraeth Cymru, 2022-2024)**

Strategaeth hirdymor i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru

**Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018)**

Mae'r Cynllun yn nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer y dyfodol o 'ddull system gyfan at iechyd a gofal cymdeithasol', sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac ar atal salwch.

**Canllawiau NICE**

Mae Canllawiau Ôl-enedigol NICE (NG194) yn cwmpasu'r gofal ôl-enedigol rheolaidd y dylai menywod a phlant ei gael yn ystod yr 8 wythnos gyntaf ar ôl yr enedigaeth. Mae'r canllawiau'n nodi cymorth a chynlluniau ar gyfer bwydo babanod, a defnyddir y cymorth a'r cynlluniau hynny i lywio datblygiad y strategaeth a'r weledigaeth hon.

**Strategaeth bwydo babanod Sefydliad Iechyd y Byd / Unicef (2003)**

## YSGOGWYR LLEOL

**CTM 2030: Ein Hiechyd, Ein Dyfodol**

Creu Cymunedau Iachach Gyda'n Gilydd. Ei nod yw uno pobl ar draws Cwm Taf Morgannwg i gyd-ddealltwriaeth o'r pethau bob dydd sy'n effeithio ar iechyd a lles pobl yn ein rhanbarth.

**Gweledigaeth Famolaeth a Newyddenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg 2023 – 2026**







Mae'r gyfres 'bwydo ar y fron' yn y Lancet yn pwysleisio nad cyfrifoldeb menywod yn unig yw bwydo ar y fron, a bod goresgyn rhwystrau diwylliannol ac ymarferol yn gyfrifoldeb pwysig i'r gymdeithas. (Yr adroddiad 'Prioritising early childhood to promote the nation's health, wellbeing and prosperity', 2024)

'Mae Menter Cyfeillgar i Fabanod Unicef y DU yn galw ar lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i gymryd camau ar frys i ddiogelu, hyrwyddo a chefnogi bwydo ar y fron yn y DU. Mae'r amser wedi dod i symud y cyfrifoldeb dros y mater iechyd cyhoeddus hwn oddi ar rieni unigol, a rhoi'r gorau i sôn am euogrwydd a bai. Yn hytrach, mae angen inni gydnabod y rôl y gall pob un ohonom ei chwarae o ran creu amgylchedd cefnogol a llawn gwybodaeth i bob rhiant, gan alluogi mamau i fwydo ar y fron cyhyd ag y dymunant. Rhagor o wybodaeth: www.unicef.uk/bficalltoaction.' Menter Cyfeillgar i Fabanod y DU)

# DULL SYSTEM GYFAN A PHOBLOGAETH GYFAN

Bydd ein gweledigaeth yn cael ei chyflawni ar ddwy lefel strategol a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd er budd poblogaeth Cwm Taf Morgannwg.

1. Y System Iechyd a Gofal
2. Dull system gyfan a phoblogaeth gyfan.

## 1 Y System Iechyd a Gofal

- Arweinydd strategol ar gyfer Bwydo Babanod
- Bydd holl staff BIPCTM yn cael hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o fwydo ar y fron
- Achrediad y Fenter Cyfeillgar i Fabanod ledled holl Wasanaethau Iechyd perthnasol CTM
- Cefnogaeth gan gymheiriaid ledled CTM
- Rhaglen hyfforddi amlddisgyblaethol ar fwydo babanod
- Cymorth arbenigol ar fwydo ar y fron i fabanod a rhieni pan fo angen

## 2 Dull System Gyfan a Phoblogaeth Gyfan

- Gwybodaeth glir
- Ceisio normaleiddio bwydo ar y fron
- Amgylchedd Cyfeillgar i Fabanod ledled CTM
- Ysgolion Iach - credoau sylfaenol
- Cydymffurfio â chod rhyngwladol Sefydliad Iechyd y Byd ar farchnata amnewidion llaeth y fron
- Bydd gweithlu BIPCTM yn datblygu ethos cadarnhaol a chynhwysol tuag at fwydo ar y fron

# SIWRNAI BABANOD TRWY BIPCTM



Dengys ein nodau ein bod wedi ymrwymo i feithrin siwrneiau bwydo babanod o fewn y bwrdd iechyd. Yn ogystal ag ymdrin ag anghenion maeth, mae'n golygu meithrin perthynas gref rhwng y rhieni a'r baban.

Bydd llais babanod a phlant bach yn ganolog i'r gofal a ddarparwn o fewn y bwrdd iechyd. Mae 'llais' yn y fan hon yn golygu'r modd y gellir ystyried hawliau babanod ochr yn ochr â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn UNCRC yn yr holl benderfyniadau sy'n berthnasol iddynt. Efallai y bydd hyn yn cynnwys ystyried y modd y mae'r baban yn gwneud synnwyr o'i amgylchedd a'r modd y byddai'n disgrifio'i deimladau pe bai'n gallu gwneud hynny.

Mae'n bosibl y bydd babanod a phlant bach angen defnyddio gwasanaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sawl gwaith. Bob tro y byddant yn gwneud hynny, mae hi'n hollbwysig i'r rhieni deimlo eu bod yn cael cymorth ar eu siwrnai. O'r dyddiau cynnar hyd at gyflwyno bwyd solet.

Mae Gwasanaethau Mamolaeth, Newyddenedigol ac Ymwelwyr Iechyd yn integreiddio safonau Cyfeillgar i Fabanod Unicef i ffurfio rhan o'r gofal a ddarperir. Nod y safonau hyn yn y DU yw cefnogi, hyrwyddo a diogelu bwydo ar y fron a chawsant eu hymestyn er mwyn cynnwys pa mor bwysig yw hi i rieni feithrin perthynas gyda'u baban, pa mor bwysig yw bwydo ymatebol a pha mor bwysig yw bwydo babanod yn ddiogel ar fformiwla (UNICEF 2013).

# BWYDO YMATEBOL

**Mae'r diagram hwn yn esbonio sut y gall y cysylltiad rhwng rhieni a babanod ddatblygu wrth fwydo a'r cylch o ran meithrin perthynas. Mae'n dechrau yn y cyfnod cynenedigol:**

Mae'r baban yn anniddig. Mae'r fam yn ymateb ac yn dal y baban yn agos ati.

Mae'r fam yn rhyddhau ocsitosin

Caiff y baban ei gysuro gan agosatrwydd y fam, gall glywed curiad ei chalon, ei llais a'i harogl.

Mae'r fam a'r baban wedi ymlacio'n braf. Mae ocsitosin yn helpu ei llaeth i lifo. Mae ocsitosin yn dda i dwf a datblygiad ymennydd y baban.

Mae'r baban yn rhyddhau ocsitosin

Mae'r baban yn ymateb, nid yn unig er mwyn cael bwyd, ond er mwyn cael cysur ac agosatrwydd hefyd, fel y bwriadodd natur.

Mae perthynas ddwyochrog yn datblygu. Cysylltiad agos rhwng y fam a'r baban, teimlant eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed a'u caru.

Rydw i'n saff, yn ddiogel, yn wydn, yn bwysig



***'Fe wnes i fwydo'r ddau fab cyntaf ar y fron ac roeddwn i wrth fy modd gyda'r agosatrwydd'***
*Sylw gan riant, Adroddiad Insight 2023*

***'Penderfynodd y baban ei bod yn amser rhoi'r gorau iddi (pan oedd bron yn 12 mis)'***
*Sylwadau gan riant baban a fwydwyd ar y fron, Adroddiad Insight 2023*

**Medd Dr Karen Bateson, Pennaeth Strategaeth a Datblygu yn y Sefydliad Rhieni-Babanod:**

"Mae hi'n gyffredin iawn i rieni gael trafferth i ffurfio cwlwm â'u babanod. Mae'r adroddiad Sicrhau Bywydau (2021) yn nodi pa mor bwysig yw hi i rieni ofyn am help os byddant o'r farn nad yw eu perthynas â'u baban yn hollol iawn, ac mae'n tynnu sylw at yr holl ffyrdd y gall gweithwyr proffesiynol helpu teuluoedd i roi'r berthynas honno'n ôl ar y trywydd iawn."

Mae Bateston et al (2021) yn nodi y gall y problemau hynny yn y berthynas ddatblygu yn y dyfodol, gan ddeillio yn aml o broblemau nad aethpwyd i'r afael â nhw yn y blynyddoedd cynnar rhwng babanod a'u rheini.
Mae'n bwysig i rieni wybod bod treulio amser yn creu cyswllt â'u baban ac yn bwydo'u baban yn dasg werthfawr a phwysig, oherwydd mae'n llywio rhai elfennau cynnar sy'n bwysig o ran twf a datblygiad yr ymennydd.



# GWIREDDU EIN GWELEDIGAETH AR DRAWS RHANBARTH CWM TAF MORGANNWG

**Sut beth fydd llwyddiant?**

- Ceir Cydgysylltwyr Bwydo Babanod penodol yn ein hunedau Mamolaeth, ein hunedau Newyddenedigol a'n Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd, a byddant yn cynorthwyo i wella gwasanaethau a gwella gwybodaeth a sgiliau'r staff.
- Bydd Bydwragedd, Staff Newyddenedigol ac Ymwelwyr Iechyd â diddordeb clinigol penodol yn cael eu cynorthwyo i gwblhau hyfforddiant ychwanegol yn ymwneud â bwydo ar y fron/llaetha a bydd hyn yn esgor ar wella gwybodaeth a sgiliau holl aelodau'r tîm amlbroffesiwn.
- Bydd lleoliadau gofal iechyd Mamolaeth, Newyddenedigol, Ymwelwyr Iechyd a Phediatrig wedi ennill, neu'n gweithio tuag at ennill, achrediad Cyfeillgar i Fabanod Unicef, gyda'r nod o ennill yr achrediad aur.
- Bydd holl wasanaethau BIPCTM yn cynnwys tîm o Warcheidwaid Cyfeillgar i Fabanod a byddwn yn eu hannog i weithio fel grŵp (yn cynnwys gwarcheidwaid cymunedol a gwarcheidwaid y trydydd sector).
- Bydd cefnogaeth gan gymheiriaid mewn bwydo ar y fron yn cael ei darparu yn holl gymunedau CTM, a bydd model cadw a chynaliadwyedd ar waith.
- Bydd cysylltiad yn cael ei greu gyda sefydliadau ac adrannau ysbytai BIPCTM er mwyn hyrwyddo agweddau cyfeillgar at fwydo ar y fron mewn mannau cyhoeddus.



- Trwy gyfrwng ein partneriaeth llais mamolaeth gyda theuluoedd, byddwn yn gweld cynnydd yn nifer y teuluoedd a fydd yn adrodd am well cymorth a safonau gofal gwell:
    - Byddant yn adrodd am gyrraedd nodau bwydo ar y fron.
    - Byddant yn adrodd am sgyrsiau cynenedigol yn ymwneud â bwydo ar y fron.
    - Byddant yn cael eu cynorthwyo i gyflwyno bwyd solet ochr yn ochr â dull bwydo o'u dewis ar ôl i'r baban gyrraedd 6 mis oed.
    - Byddant yn parhau i ddweud bod dewisiadau ynghylch penderfyniadau bwydo babanod yn cael eu parchu.
    - Byddant yn parhau i ddweud bod mamau'n cael anogaeth a chymorth gweithredol.
- Bydd y gwasanaeth cymorth bwydo babanod yn meddu ar y capasiti i gynorthwyo nifer cynyddol o deuluoedd sy'n dewis bwydo ar y fron trwy ddefnyddio timau cymunedol a all gynnig mynediad amserol at gymorth gyda bwydo ar y fron.

- Bydd cydgysylltwyr bwydo babanod yn cysylltu â staff a rheolwyr data er mwyn sicrhau y cesglir data cadarn, defnyddiol a manwl gywir fel y gellir monitro a gwella cyfraddau bwydo ar y fron a phrofiadau mamau o fwydo ar y fron.

- Bydd staff sy'n cynorthwyo teuluoedd i fwydo babanod yn cael hyfforddiant mewn Sgiliau Bwyd a Maeth Cymunedol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a byddant yn deall y manteision sy'n perthyn i faeth a hydradu da.

- Bydd staff sy'n cynorthwyo teuluoedd i fwydo babanod yn cael hyfforddiant mewn Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif er mwyn ategu sgyrsiau ynglŷn ag ymddygiad iechyd.

- Byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn ymgysylltu â rhannau eraill o'r system, yn cynnwys yr Ymagwedd System Gyfan at Bwysau Iach, er mwyn cael rhagor o wybodaeth werthfawr am ddewisiadau bwydo teuluoedd ledled CTM.



# CRYNODEB

Nod Strategaeth Bwydo Babanod BIPCTM yw hyrwyddo ac ategu'r maeth gorau posibl i fabanod trwy normaleiddio bwydo ar y fron a chreu diwylliant sy'n gydnaws â bwydo ar y fron. Mae'r strategaeth hon yn sicrhau y bydd teuluoedd yn cael eu cynorthwyo'n briodol i wneud penderfyniadau cytbwys ynglŷn â bwydo a meithrin, gan fynd ati yn y pen draw i ysgogi gwelliannau i iechyd a llesiant trwy'r boblogaeth. Mae amcanion allweddol yn cynnwys cynyddu cyfraddau bwydo ar y fron, gwella'r berthynas rhwng y rhiant a'r baban, lleihau gordewdra plant ac ategu dulliau diogel ac ymatebol o ddefnyddio llaeth fformiwla.

Mae mentrau allweddol yn cynnwys gwella adnoddau cynenedigol ac addysg i rieni, ymgorffori adborth gan ddefnyddwyr fel y gellir darparu gofal unigol, gwella adnoddau digidol a chynnig cymorth penodol yn ymwneud ag anawsterau bwydo. Trwy gyfrwng yr ymdrechion hyn, mae'r strategaeth yn anelu at greu amgylchedd cefnogol a fydd yn blaenoriaethu iechyd a llesiant babanod a'u teuluoedd, gan arwain at wella'r canlyniadau o safbwynt maeth a gwella iechyd y gymuned.



# CYFEIRNODAU

## CYFEIRINODAU A DDEFNYDDIWYD:


- Atal clefydau ac arbed adnoddau: cyfraniad posibl cynyddu cyfraddau bwydo ar y fron yn y DU (unicef.org.uk)
- Blaenoriaethu plentyndod cynnar i hybu iechyd, lles a ffyniant y genedl. Cyngor Academi'r Gwyddorau Meddygol (Chwefror 2024)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989)
- Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd Bwydo ar y Fron Cymru Gyfan, Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2019)
- Cynllun plant a phobl ifanc. Llywodraeth Cymru. (2022)
- Dyfodol Gwych (2014) Crynodeb o ganfyddiadau ac argymhellion drafft; Tîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf
- Gofal ôl-enedigol Canllaw NICE [NG194] Argymhellion Cyhoeddwyd: 20 Ebrill 2021
- Gweledigaeth Mamolaeth a Newyddenedigol (2023 – 2026) - Cefnogi Beichiogrwydd Iach a Grymuso Rhieni: Dechrau'n Dda - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.
- Horta, B. L., Rollins, N., Da Silva Dias, M., Garcez, V. P., & Pérez-Escamilla, R. (2022). Systematic review and meta-analysis of breastfeeding and later overweight or obesity expands on previous study for World Health Organization. Acta Pædiatrica, 112(1), 34–41.
- Iechyd Cyhoeddus Lloegr a Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF y DU (2016) Comisiynu gwasanaethau bwydo babanod: pecyn cymorth i awdurdodau lleol. Adalwyd o Comisiynu gwasanaethau bwydo babanod: pecyn cymorth i awdurdodau lleol (Rhan 2) (publishing.service.gov.uk)
- Joffe, N., Webster, F. and Shenker, N. (2019). Support for breastfeeding is an environmental imperative. BMJ, [online] 367, p.l5646. doi:https://doi.org/10.1136/bmj.l5646.
- McCrory, C. and Layte, R. (2012) 'Breastfeeding and risk of overweight and obesity at nine-years of age,' Social Science & Medicine, 75(2), t. 323–330.
- Parent-Infant Foundation (2021). EvidenceBriefs - https://parentinfantfoundation.org.uk/1001 -days/resources/evidence-briefs/.
- Renfrew, M. J., Pokhrel, S., Quigley, M., McCormick, F., Fox-Rushby, JF., Dodds, R., Duffy, S., Trueman, P., & Williams, A. (2012). Preventing diseases and saving resources: the potential contribution of increasing breastfeeding rates in the UK. Unicef, UK. 5-5-2017. Ar gael oddi wrth: Canllaw NICE ar ofal ôl-enedigol [NG194] Argymhellion Cyhoeddwyd: 20 Ebrill 2021 (Cyrchwyd Mehefin 2024)




- Rhaglen Iechyd Dechrau'n Deg. Llywodraeth Cymru (2017)
- Rhaglen Mesur Plant. Iechyd Cyhoeddus Cymru (cyrchwyd Mehefin 2024) CMP 2022-23 – Iechyd Cyhoeddus Cymru (nhs.wales) 94] Argymhellion Cyhoeddwyd: 20 Ebrill 2021 (Cyrchwyd Mehefin 2024)
- Rhaglen Plant Iach Cymru. Llywodraeth Cymru (2016)
- Rito, A.I. et al. (2019) Association between Characteristics at Birth, Breastfeeding and Obesity in 22 Countries: The WHO European Childhood Obesity Surveillance Initiative – COSI 2015/2017. Obesity Facts, 12, t.226-243 21
- Securing-Healthy-Lives-ENGLISH.pdf (parentinfantfoundation.org.uk) Bateson K, Sercombe M, Hamilton W. Securing Healthy Lives Report. Parent Infant Foundation (2021)
- Sefydliad Iechyd y Byd (2019) Bwydo ar y Fron. Sefydliad Iechyd y Byd (2019) Bwydo ar y Fron. The Baby Friendly Initiative | Call to Action - YouTube .
- Strategaeth Tlodi Plant Cymru. Llywodraeth Cymru. (2024)
- The Baby Friendly Initiative | Call to Action – YouTube
- Unicef UK (2016) Diogelu Iechyd ac Achub Bywydau: Galwad i Weithredu - - Menter Cyfeillgar i Fabanod. (unicef.org.uk)
- Unicef UK (2022) Bwydo ar y Fron yn y DU - menter Cyfeillgar i Fabanod
- Unicef UK (2022b) Ymchwil ar Ddatblygiad yr Ymennydd a Gwybyddol - Menter Cyfeillgar i Fabanod. https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/newsandresearch/baby-friendly-research/infant-health-research/infanthealthresearch-brain-and-cognitive-development/
- Weerth, C. et al. (2022). Human milk: From complex tailored nutrition to bioactive impact on child cognition and behaviour. https://doi.org/10.1080/10408398.2022.2053058
- Y Fenter Cyfeillgar i Fabanod, Canllaw i Safonau Menter Cyfeillgar i Fabanod Unicef y DU, Unicef y Deyrnas Unedig (2014)
- Ymchwil ar fwydo ar y fron a newid hinsawdd - Menter Cyfeillgar i Fabanod (unicef.org.uk)



**Hoffai awduron y strategaeth ddiolch i'r unigolion a'r sefydliadau canlynol am greu a datblygu'r Strategaeth Bwydo Babanod a'i hymrwymiad iddi.**

## CYDNABYDDIAETH I:

Suzanne Hardacre – Cyfarwyddwr Mamolaeth

Sian Watkins – Rheolwr Cynllunio Strategol a Chomisiynu

Claire Turbutt – Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd

Rachel Reed – Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd

Naomi Morgan – Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd

Stella Liapi - Uwch Ddadansoddwr Cudd-wybodaeth Iechyd y Cyhoedd

Lee Jones - Swyddog Gweinyddol ac Adnoddau

Rosy Phillips – Cydlynydd Bwydo Babanod ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth

Claire Westcott - Cydlynydd Bwydo Babanod ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth

Fay Fear - Cydlynydd Bwydo Babanod y Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd

Natalie O'Dell - Cydlynydd Bwydo Babanod ar gyfer y Gwasanaeth Newyddenedigol

Geraldine Gibson - Cydlynydd Bwydo Babanod ar gyfer y Gwasanaeth Newyddenedigol

Clare Shears – Uwch Nyrs y Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd

Alex Harden - Pennaeth Cyfathrebu a'r Cyfryngau

Catherine Dyke - Darlunydd Graffig, Darlunio Meddygol

Aelodaeth o Grŵp Strategaeth Bwydo Babanod Cwm Taf Morgannwg

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr

Rhondda Cynon, Cyngor Bwrdeistref Sirol Taf

Partneriaeth Bwydo Lleisiau Babanod

**Gallwch gysylltu â'n bydwraig profiadau menywod drwy'r e-bost CTM.WomensExperiencesCTUHB@wales.nhs.uk**

# DYLETSWYDD ANSAWDD AR GYFER STRATEGAETH BWYDO BABANOD

Mae'r Strategaeth Bwydo Babanod wedi'i chreu trwy gymhwyso'r fframwaith a nodir yn y canllawiau Dyletswydd Ansawdd.
Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn rhoi sicrwydd i Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd bod y bwrdd iechyd wedi ymrwymo i wella a diogelu iechyd, gofal a lles y boblogaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.
Byddwn yn cyflawni gwelliant drwy weithio gyda defnyddwyr gwasanaeth, partneriaid ehangach a gwasanaethau'r bwrdd iechyd, gan gymhwyso Dyletswydd Ansawdd ar draws yr holl wasanaethau iechyd sy'n gwasanaethu poblogaeth rhanbarth Cwm Taf Morgannwg.
Gan weithio gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod ansawdd wedi'i fewnosod mewn system gyfan. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod y bwrdd iechyd yn darparu gwasanaethau sy'n ddiogel, yn amserol, yn effeithiol, effeithlon, yn deg ac yn canolbwyntio ar y person.

| | Rôl | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| **Cysgu** | Byddwn yn dysgu gwersi, yn dryloyw, yn rhannu dysgu ac yn cyflwyno arfer gorau. Bydd hyn yn sicrhau bod systemau diogel a dibynadwy o ansawdd uchel ar waith sy'n osgoi niwed y gellir ei atal. | ➢ Byddwn yn datblygu ac yn darparu ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws BIPCTM i sicrhau gwasanaeth teg.<br>➢ Byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu addysg ar gyfer gweithlu cymwys<br>➢ Byddwn yn gweithio o fewn y bwrdd iechyd i gael nyrsys cyswllt ac i ddatblygu llwybrau bwydo babanod.<br>➢ Byddwn yn dadansoddi ac yn gweithredu ar adborth sy'n manylu ar y ffactorau dylanwadu ar benderfyniadau bwydo.<br>➢ Byddwn yn monitro cynnydd y strategaeth drwy Grŵp Bwydo Babanod Strategol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. |
| **Yn amserol** | Byddwn yn sicrhau bod gan fabanod a theuluoedd fynediad at gyngor, arweiniad a gofal o ansawdd uchel yn seiliedig ar dystiolaeth pan fydd ei angen arnyn nhw. | ➢ Byddwn yn parhau i weithio tuag at safonau Y Fenter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF UK.<br>➢ Byddwn yn sicrhau bod dysgu cadarn a pharhaus yn digwydd ar draws y sefydliad cyfan.<br>➢ Gweithredu a monitro gwelliannau o ddysgu sy'n cael ei nodi drwy ddigwyddiadau, archwilio, data, adolygiadau, pryderon ac adborth<br>➢ Bydd adnoddau cyn-geni ar gael; i sicrhau bod ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth gyson ar gael i bob rhiant. |
| **Effeithiol** | Byddwn yn sicrhau bod y gofal a'r driniaeth a ddarparwn yn ystyrlon a byddwn yn sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl i'r babanod, y fam a'r teuluoedd. | ➢ Bydd teuluoedd yn cael cynnig trafodaeth ystyrlon ar fwydo babanod i archwilio dewisiadau bwydo.<br>➢ Bydd gwybodaeth ac adnoddau yn cael eu rhoi i rieni i'w galluogi i gynaeafu colostrwm yn y cyfnod cyn-geni.<br>➢ Bydd rhieni sy'n wynebu anawsterau bwydo:<br>• Yn cael eu cefnogi'n llawn gan staff a bydd gwybodaeth gyson yn cael ei rhoi iddyn nhw.<br>• Yn cael eu cyfeirio'n briodol at y cymorth cywir.<br>➢ Bydd gwasanaethau arbenigol ar gael ar gyfer materion bwydo cymhleth.<br>➢ Byddwn yn darparu cefnogaeth ac anogaeth weithredol i fenywod, gan weithio ar y cyd i'w cefnogi i gyflawni eu nodau bwydo. |
| **Yn Effeithlon** | Byddwn yn cydweithio fel 'system gyfan' i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau i wella canlyniadau iechyd i'n babanod. Mamau a theuluoedd. | ➢ Ymgysylltu ag asiantaethau amlasiantaethol i ymrwymo i gydweithio mewn newid cymdeithasol ehangach i normaleiddio bwydo ar y fron yn ein cymunedau fel Gwasanaethau Plant a Llyfrgelloedd<br>➢ Cysylltu ag ysgolion ac addysg bellach i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch bwydo ar y fron a magu plant ymatebol.<br>➢ Bydd staff sy'n gweithio o fewn BIPCTM yn cael eu cefnogi gyda'u taith bwydo ar y fron |
| **Yn Deg** | Byddwn yn sicrhau bod gan fabanod, mamau a theuluoedd fynediad teg at ofal iechyd a fydd yn rhoi platfform iddyn nhw gyrraedd eu potensial llawnaf.<br>Byddwn yn diogelu lles a diogelwch plant a'u teuluoedd sy'n dod yn agored i niwed neu mewn perygl. | ➢ Byddwn yn parhau i ddatblygu adnoddau digidol i sicrhau bod gwybodaeth glir a chyson ar gael.<br>➢ Bydd cyfathrebu a gwybodaeth yn glir, yn briodol mewn fformat, yn berthnasol, yn gyson ac yn hawdd eu deall.<br>➢ Mae holl staff y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am gadw at bolisïau a gweithdrefnau Diogelu.<br>➢ Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i unigolion yn eu hiaith gyntaf i'w galluogi i ymgysylltu'n llawn â'u gofal a'u cymorth. |
| **Canolbwyntio ar yr unigolyn** | Byddwn yn ymgorffori'r llais babanod a phlant bach ym mhopeth rydym ni'n gwneud.<br>Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ac yn gwrando ar bob defnyddiwr gwasanaeth i sicrhau'r profiad a'r canlyniadau gorau. | ➢ Byddwn yn gwrando ar deuluoedd a staff, byddan nhw'n cael eu gwerthfawrogi a'u trin ag urddas a pharch.<br>➢ Byddwn yn ceisio barn ein cymuned ac yn parhau i wrando ar adborth gan fenywod, pobl sy'n rhoi genedigaeth, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.<br>➢ Cyflwyno 'llais y babi' wrth wneud penderfyniadau. |